# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer


**Cylch Meithrin Hywel Dda**

**Ysgol Llys Hywel**
**Stryd y Farchnad**
**Hendy-gwyn ar Daf**
**SA34 0QB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/06/2019

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Hywel Dda yn darparu gwasanaeth gofal dydd llawn i uchafswm o 19 o blant. Mae'n gweithredu o adeilad hunangynhwysol ar dir Ysgol Llys Hywel yn nhref Hendy-gwyn ar Daf, ac mae ar agor rhwng 8.55yb a 2.55yh o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod y tymor yn unig. Mae'r gofal yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Jayne Williams a Christine Thomas yw'r personau cofrestredig. Jayne Williams yw'r person â chyfrifoldeb hefyd.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Hywel Dda yn hapus ac yn frwdfrydig dros eu profiadau dysgu. Maent yn cael gofal gan staff gwybodus, magwrus a chyson sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn cael budd o wasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus ac sy'n canolbwyntio'n fawr ar y plentyn. Mae'r plant yn hapus ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma. Mae'r rhieni'n hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cael grant cymunedol sydd wedi'i alluogi i brynu llyfrau newydd. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi prynu cegin fwd newydd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Dim

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae llesiant y plant yn dda, a hynny am fod gan y plant lais cryf a chânt gyfleoedd i gyfrannu at y gwasanaeth. Maent yn dewis sut i dreulio eu hamser ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau diddorol a difyr. Mae'r plant yn rhyngweithio ag eraill yn gadarnhaol, ac maent yn gwneud cynnydd da ac yn dod yn fwy annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant lais cryf am eu bod yn dewis sut i dreulio eu hamser, ac maent yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gweithgareddau. Roedd y plant yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer, ac roeddent hefyd yn dewis teganau o wahanol rannau o'r ystafell roeddent am chwarae â nhw.
Maent yn mynegi eu hunain ac yn siarad yn hyderus. Roeddent yn cael rhoi eu barn ar y broses o gynllunio gweithgareddau gan fod eu syniadau wedi cael eu hysgrifennu ar bapur. Yn ystod y sesiwn bore, gofynnwyd i'r plant sawl gwaith a oeddent am chwarae yn yr awyr agored, ond nid oedd unrhyw un am wneud hynny am ei bod yn glawio. Roedd y plant yn y sesiwn prynhawn am chwarae yn yr awyr agored a gwnaethant hynny.

Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol iawn ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni gan eu bod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd a'r arferion dyddiol. Roedd bron pob plentyn yn sgwrsio'n rhwydd ag eraill. Roeddent yn sgwrsio'n fywiog â ni a gyda'i gilydd wrth iddynt chwarae, hyd yn oed y rheini a oedd wedi dechrau yn y gwasanaeth yn ddiweddar. Roedd pob plentyn yn archwilio'r ystafell yn hyderus a oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yng nghwmni'r staff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol am eu bod yn datblygu sgiliau sy'n eu galluogi i gydweithio. Er enghraifft, roeddent yn chwarae gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd yn gydweithredol, megis pan oeddent yn rhoi'r teganau i gadw. Gofynnodd y plant yn hyderus am help gan y staff os oedd ei angen arnynt, ac roeddent yn wên o glust i glust wrth gael eu canmol am adnabod llythrennau. Mae'r plant yn dysgu sut i fod yn gwrtais ac ymddwyn yn dda. Roedd y plant yn siaradus ac yn gwrtais, ac roeddent yn dangos eu bod yn dysgu sut i ymddwyn yn dda wrth y bwrdd gan ddweud 'os gwelwch yn dda' pan oeddent am gael help, a 'diolch' pan roddwyd byrbryd iddynt, yn aml heb anogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymgolli yn eu chwarae, ac roeddent yn mwynhau gwneud symudiadau i ganeuon wrth iddynt esgus bod yn hedyn yn tyfu o'r ddaear. Roedd y plant yn canu i gerddoriaeth gefndir wrth iddynt chwarae yn y gornel gartref. Gwnaeth y plant gacennau pen-blwydd yn yr hambwrdd tywod a rhoi gwellt ynddynt fel canhwyllau am eu bod wedi dathlu pen-blwydd 'Dewin' yn ddiweddar. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth iddynt redeg o dan y dŵr glaw a oedd yn rhedeg i lawr y biben, a neidio mewn pyllau.

Ar y cyfan, mae'r plant yn gwneud cynnydd da gan eu bod yn cael budd o gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau, ac maent yn dod yn fwy annibynnol. Roedd y plant yn cael cyfleoedd i fod yn greadigol a datblygu'n gorfforol drwy ddawnsio a symud. Er enghraifft, gwnaeth rhai o'r plant esgus bod yn bont a gallai'r plant eraill fynd oddi tanynt. Dangosodd y plant y gallent gyflawni tasgau eu hunain wrth iddynt ddefnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn fedrus. Roedd helpwr y dydd yn helpu i baratoi byrbryd a dosbarthu platiau a chwpanau i bawb.
Mae'r plant yn cael cyfleoedd bob dydd i chwarae yn yr awyr agored ar iard yr ysgol, yn yr ardal goediog neu ar yr ardal ddringo bren.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad — Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn awyrgylch gofalgar. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gyson, ac yn fodelau rôl da gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'r staff yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae yn effeithiol, gan ddarparu gweithgareddau ysgogol a diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyson. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gwybod â phwy i gysylltu o fewn yr asiantaethau perthnasol os oedd ganddynt bryderon. Roedd gan bob aelod o'r staff gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos eu bod wedi ymdrin â digwyddiadau'n briodol. Roedd yr arweinwyr yn darparu byrbrydau a diodydd iach megis ffrwythau, dŵr neu laeth. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn mwynhau buddiannau chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd, ni waeth beth fo'r tywydd. Roedd cofnodion ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr a'r plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel mewn argyfwng.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn gyson ac yn gadarnhaol, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roeddent yn defnyddio dulliau tynnu sylw yn llwyddiannus ac yn canmol y plant yn aml, er enghraifft am dacluso'r teganau a'u rhoi i gadw. Roedd y staff yn gyson ac yn atgoffa'r plant i fod yn garedig pan oeddent yn gweld ymddygiad negyddol. Roedd y staff yn dathlu cyflawniadau'r plant drwy gofleidio, rhoi sticeri iddynt a churo dwylo.

Roedd y staff yn diwallu anghenion unigol yn effeithiol gan eu bod yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn darparu awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol am eu bod yn gwybod manylion am y plant a rannwyd gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru ac yn gweithredu arnynt. Roedd y staff yn hybu datblygiad pob plentyn drwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Roeddent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol gan fod y plant yn deall yr hyn a oedd yn cael ei ddweud ac yn ymateb yn Gymraeg. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn falch o ba mor gyflym roedd eu plant wedi dysgu Cymraeg ers mynychu'r gwasanaeth.

## 3. Yr Amgylchedd — Da

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn fawr, yn olau, yn lliwgar ac yn ddiogel. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Roedd y brif fynedfa a'r giât ar glo, ac roedd ymwelwyr yn cael mynediad gan staff a oedd yn cadarnhau pwy oeddent cyn llofnodi'r cofnod ymwelwyr. Nid oedd unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored ac roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau gan yr arweinwyr yn llwyddiannus. Roedd y staff yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant yn ddyddiol. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom gofnodion o bwy oedd yn bresennol ac unrhyw faterion a godwyd.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol i'r plant sy'n addas ar eu cyfer. Roedd yr ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod ar lefel taldra'r plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Roedd y plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn maint plant dan do. Roedd lluniau o'r plant a'u gwaith yn cael eu harddangos mewn modd deniadol. Roedd ardal awyr agored fawr wrth ochr yr adeilad a oedd yn cynnwys ardal laswelltog ac ardal goediog ar gael i'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau y gall y plant fwynhau ystod o adnoddau chwarae a dysgu ysgogol o ansawdd da. Roedd gweithgareddau a theganau ar gael i raddau digonol er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a gemau yn lân, yn gweithio'n dda ac yn cael eu storio mewn blychau wedi'u labelu a oedd yn cael eu cadw ar lefel taldra'r plant. Hefyd, roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol iawn. Mae'r person cofrestredig, sef y person â chyfrifoldeb hefyd, yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael ac yn cael eu hadolygu'n gyson. Dengys hunanwerthusiad fod gwelliannau'n cael eu gwneud. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda ac maent yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned leol yn effeithiol iawn ac yn gweithio er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau y mae modd eu cyflawni er mwyn hybu gwelliant a sicrhau canlyniadau da i'r plant. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd y staff hirsefydledig yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd yr arweinwyr yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau gan arddangos hyder yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r datganiad o ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig.

Mae'r arweinwyr wedi llunio adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi ystyried barn y rhieni, y plant a'r staff. Mae'r arweinwyr yn bwriadu codi arian i adeiladu ardal cysgodol yn yr awyr agored at ddefnydd y plant. Gwelsom gofnodion o sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol y staff. Roedd ffeiliau pob aelod o'r staff yn dangos bod system recriwtio gadarn ar waith.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi meithrin partneriaethau rhagorol â'r rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu ymweliadau â'r ffermydd a'r siopau lleol, ac ymweliadau â'r cylch meithrin gan y frigâd dân a'r gwasanaeth ambiwlans. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r ysgol er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth i'r ysgol. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu sesiynau iaith a chwarae ar gyfer y plant a'u rhieni er mwyn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg. Dywedodd y rhieni wrthym fod yr arweinwyr a'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn, a'u bod yn cadw mewn cysywllt rheolaidd o ran digwyddiadau a gynhelir yn y gwasanaeth neu mewn perthynas â'u plentyn. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hoff iawn o'r pecynnau 'ysgol gartref' y mae'r plant yn mynd â nhw adref a gwneud gweithgareddau ar gyfer meysydd dysgu gwahanol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd dau arolygydd un ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â'r gwasanaeth ar 11 Mehefin 2019 am gyfanswm o bedair awr a hanner. Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 19 Mehefin am gyfanswm o 30 munud. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y staff;
- siarad â'r arweinwyr, y staff, y plant, rhieni, gofalwyr a mam-guod a thad-cuod;
- edrych ar sampl o ddogfennaeth yn cynnwys cofrestrau'r staff a'r plant, ffeiliau'r staff, asesiadau risg, cofnodion damweiniau;
- edrych ar y safle y tu mewn a'r tu allan.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Jayne Williams**<br>**Christine Thomas** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Jayne Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 3 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Iau, 8.55yb – 2.55yh, yn ystod y Tymor yn unig.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **11 Hydref 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 Mehefin 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2019